Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon

**Brynglas Drive**
**Casnewydd**
**NP20 5QS**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon |
| Awdurdod lleol | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 210 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 160 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 12.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 11.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 7.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 04/12/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 21/09/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/10/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Bro Teyrnon yn gymuned hapus, gynhwysol a gofalgar sy'n rhoi pwyslais cryf ar ddathlu Cymreictod a pharchu eraill. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn ac maent yn dangos cwrteisi a gofal tyner at eraill. Mae'r Gymraeg yn ganolog i holl waith yr ysgol ac mae bron bob disgybl yn falch o'u gallu i ddefnyddio'r iaith tu fewn a thu hwnt i'r dosbarth. Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw'r modd mae disgyblion yn cyfrannu'n werthfawr at yr ethos gofalgar sy'n bodoli ynddi, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf gefnogi eu cyfoedion ieuengaf yn hynod ofalgar.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau o'u mannau cychwyn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol, yn enwedig eu medrau llafar Cymraeg. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus ac yn trafod cynnwys llyfrau yn aeddfed a deallus. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau ysgrifennu, mathemateg a digidol yn gadarn ac yn eu cymhwyso'n briodol mewn amrywiaeth o wahanol gyd-destunau.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod dda o weithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae buddiol i ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae athrawon ar draws yr ysgol yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu i herio a chefnogi'r dysgu. Er hyn, mae tueddiad i staff or-arwain y dysgu sy'n cyfyngu gallu disgyblion i gymhwyso eu medrau yn annibynnol a chyflawni hyd orau eu gallu.

Ers sefydlu'r ysgol dros ddegawd yn ôl, mae'r pennaeth wedi llwyddo i sefydlu amgylchedd dysgu pwrpasol sy'n dathlu Cymreictod a chynnal safonau uchel o ran y Gymraeg a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus gyda'r holl randdeiliaid. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau ysgol a'r meysydd i'w gwella, gan gynnwys yr angen i gysoni a mireinio'r addysgu ar draws yr ysgol. Darperir cefnogaeth dda i arweinwyr gan aelodau'r corff llywodraethol. Maent yn manteisio ar arbenigeddau aelodau yn effeithiol i gefnogi gwaith yr ysgol ac i gynnig cymorth i arweinwyr, yn ôl yr angen.

## Argymhellion

A1 Lledaenu'r arferion addysgu da ar draws yr ysgol

A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu a'u datblygu'n ddysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon gyda medrau islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer disgyblion o'u cyfnod datblygu, ac mae'r rhan fwyaf yn newydd i'r Gymraeg. Er hyn, maent yn caffael yr iaith yn gyflym ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cyson o'u mannau cychwyn.

Yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ac yn ymateb i gwestiynau a chyfarwyddiadau syml yn ofalus, ac yn mwynhau dysgu a chanu rhigymau cyfarwydd gyda'u cyfoedion. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu medrau llafar ac yn eu defnyddio'n gynyddol hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn dilyn cystrawen a geirfa briodol fel 'Beth yw dy hoff liw di?' i gywain gwybodaeth oddi wrth eu cyfoedion, ac mae disgyblion Blwyddyn 2 yn disgrifio llew yn fedrus gan ddefnyddio ystod addas o ansoddeiriau. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith gan drafod manteision bod yn ddwyieithog yn aeddfed. Maent yn defnyddio ystod dda o eirfa a phatrymau iaith i gyfathrebu'n naturiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, er enghraifft wrth gyflwyno rhaglen radio i'w cyfoedion yn y neuadd ginio, y brif fynedfa a buarth yr ysgol.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen cynnar sy'n addas i'w hoed a'u cam datblygu. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio strategaethau ffoneg yn effeithiol i adnabod geiriau cyfarwydd yn gywir. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn darllen yn gynyddol hyderus gan ddefnyddio atalnodi ynghyd ag amrywio goslef y llais yn effeithiol. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr da, gyda llawer yn defnyddio dulliau darllen ehangach yn effeithiol wrth drafod a gwerthfawrogi ystod eang o destunau.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau mawr yn fedrus ac yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn gadarn trwy ystod o brofiadau cyffrous a chreadigol. Ym Mlwyddyn 1 a 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o eirfa ac atalnodi syml yn eu hysgrifennu, er enghraifft wrth ddefnyddio ansoddeiriau a chysylltеiriau priodol i gryfhau ystyr wrth ysgrifennu am y llew. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu'n gynyddol estynedig mewn ystod o gyd-destunau, gan ddangos gafael sicr ar elfennau iaith ac ystod o ffurfiau ysgrifennu gwahanol.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ac maent yn llwyddo i gymhwyso eu medrau rhif yn briodol i ddatrys problemau mewn

gwahanol gyd-destunau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn parhau i ddatblygu ystod dda o fedrau mathemateg yn addas yn eu profiadau dysgu, er enghraifft wrth ddechrau defnyddio mesur safonol wrth adeiladu lloches. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau'n gadarn. Mae'r disgyblion hynaf yn dangos dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemateg i ddatrys problemau ymarferol, er enghraifft wrth greu cynllun o safle'r ysgol trwy ddefnyddio'u gwybodaeth am raddfa yn effeithiol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod o apiau a rhaglenni i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ddefnyddio cyfarwyddiadau syml i reoli tegan rhaglenadwy i symud ar hyd llwybr wrth efelychu taith y gwenynen at flodyn. Mae'r disgyblion hynaf yn cyfuno'u medrau digidol yn llwyddiannus i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyflwyno gwaith animeiddio ar fywyd Betty Campbell.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau creadigol cadarn. Yn gynnar yn eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion y dosbarth meithrin yn creu modelau 3D o bry copyn yn gymharol annibynnol. Defnyddir ystod dda o dechnegau gwahanol gan ddisgyblion wrth iddynt weithio gydag ystod dda o ymwelwyr ac artistiaid lleol, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 greu lluniau dyfrlliw o adar ysglyfaethus. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn datblygu medrau llafar ynghyd â'u hunanhyder yn llwyddiannus wrth berfformio sioe flynyddol ar y cyd â'u cyfoedion o ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol. Mae hyn yn cryfhau a chyfoethogi eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am eu cynefin a'u treftadaeth yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol yn gynyddol hyderus. Mae'r plant ieuengaf yn datblygu medrau corfforol cadarn, gan gynnwys defnyddio morthwyl i fwrw hoelen i ddarn o bren yn fedrus. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 arbrofi â gwahanol symudiadau a siâp y corff mewn sesiynau gymnasteg.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae medrau lles ac agweddau disgyblion tuag at eu dysgu yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae'r amgylchedd hapus a chroesawgar yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae perthnasoedd gwaith cynnes a phwrpasol rhwng oedolion a disgyblion yn sicrhau bod bron bob disgybl yn gwybod at bwy i droi am gymorth neu gefnogaeth. Maent yn dangos ymdeimlad o falchder a gofal i'w hysgol a'u cymuned leol ac yn defnyddio eu llais yn ddoeth i hyrwyddo materion sy'n bwysig iddynt.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac maent yn dangos brwdfrydedd a mwynhad at eu dysgu. Maent yn chwilfrydig wrth gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae newydd ac yn datblygu hunanhyder yn gynyddol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n aeddfed ar syniadau a barn eu cyfoedion, er enghraifft wrth drafod os yw'n garedig neu'n angharedig i gadw anifeiliaid mewn sŵ. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau dosbarth. Maent yn dangos empathi sensitif at ei gilydd ac yn uniaethu'n angerddol â theimladau cymeriadau mewn llyfrau, er enghraifft. Er nad yw disgyblion bob tro'n cael cyfleoedd amserol i arwain eu dysgu'u hunain yn gwbl annibynnol, mae bron bob un ymateb yn

llwyddiannus i ddilyn arweiniad athrawon a chynorthwywyr i gwblhau tasgau. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn datblygu'n gynyddol hyderus i fod yn ddisgyblion aeddfed a chyfrifol. Maent yn dangos balchder ac ymroddiad wrth gefnogi a threulio cyfnodau yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf. Er enghraifft, maent yn ymfalchïo wrth gefnogi disgyblion Blwyddyn 2 i wella eu dealltwriaeth o ddegau ac unedau mewn gweithgareddau rhifedd, ac wrth ofalu am y disgyblion ieuengaf yng ngwasanaethau'r ysgol.

Mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth o ran diet a byw'n iach ac yn gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud dewisiadau iach wrth ddewis eu cinio, gyda llawer o ddisgyblion yn manteisio ar y bar salad amser cinio. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan yn egnïol mewn sesiynau addysg gorfforol ac mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau datblygu eu medrau mewn gweithgareddau dysgu a chwarae yn yr ardaloedd allanol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'r corff yn iach ac maent yn ymrwymo i'r ystod o weithgareddau corfforol sy'n cael eu cynnig gan yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau arwain priodol wrth gymryd rhan mewn ystod dda o bwyllgorau a grwpiau llais disgyblion. Maent yn ymateb yn dda i'w cyfrifoldebau ac yn ymfalchïo mewn cefnogi eu cyfoedion. Er enghraifft, mae'r llysgenhadon lles yn paratoi adnoddau buddiol i'r 'Mannau Meddwl' sydd ar gael ar draws yr ysgol er mwyn cefnogi lles disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall y cysylltiad rhwng gwerthoedd yr ysgol a'u cyfrifoldeb am eu hymddygiad a'u dysgu eu hunain yn dda. Maent yn dangos eu bod yn ddysgwyr cyfrifol a deallus sy'n barod iawn i gymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae'r naws deuluol sy'n bodoli yn yr ysgol yn cael dylanwad cadarn ar ymdeimlad o berthyn a gofalu am ei gilydd. Mae hyn yn gryfder nodedig yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn tu fewn a thu allan i'r dosbarthiadau. Maent yn cydweithio'n effeithiol fel parau ac aelodau grŵp, gan gyfrannu'n werthfawr i drafodaethau, ac wrth ddatrys problemau. Mae'r ychydig iawn o ddisgyblion sydd angen amser i fyfyrio am eu teimladau a meddwl am eu hymddygiad yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd lles penodol. O ganlyniad, maent yn llwyddo i ddatblygu dulliau effeithiol i'w helpu i leihau'r effaith ar eu dysgu.

Mae cyfradd presenoldeb yr ysgol dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae arweinwyr ac athrawon yr ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion Cymraeg lleol i gyd-gynllunio cwricwlwm diddorol sy'n ymateb yn dda i egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn sicrhau bod athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu buddiol sy'n adeiladu'n gynyddol ar fedrau a dealltwriaeth disgyblion. Nodwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r defnydd o gelfyddydau mynegiannol i ddatblygu hunanhyder ac ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin, ac o hanes a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion wedi

cydweithio'n llwyddiannus ag arlunydd enwog i greu lluniau o dirluniau lleol i gydfynd â darn o farddoniaeth am gymuned Ysgol Bro Teyrnon.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu amrediad da o weithgareddau ar draws y cwricwlwm sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn llwyddiannus. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, maent yn cynllunio ystod eang o brofiadau buddiol sy'n datblygu medrau dysgu cynnar disgyblion yn hynod lwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn datblygu'u medrau llafar yn effeithiol trwy holi eu cyfoedion am eu hoff liw ac yna creu a thrafod graff o'r canlyniadau. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn adeiladu ar fedrau iaith a llythrennedd disgyblion yn bwrpasol trwy ddarparu profiadau dysgu defnyddiol iddynt ddatblygu eu medrau gwrando, llafar, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn rheolaidd. Yn ogystal, mae defnydd o orsaf radio'r ysgol yn cyfrannu'n werthfawr at annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol ac i ddysgu am ganeuon cyfoes Cymreig.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn creu amgylcheddau dysgu buddiol lle mae disgyblion yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth meithrin yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr tu fewn a thu allan sy'n tanio dychymyg disgyblion ac yn eu cefnogi i ddysgu a darganfod drostynt eu hunain. Yn yr arfer orau, mae athrawon a chynorthwywyr yn addasu'r ddarpariaeth i ymateb i ddiddordebau a sylwadau'r disgyblion, er enghraifft trwy gynllunio ystod o brofiadau dysgu ysgogol wrth ymateb i gwestiwn gan ddisgybl. Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r defnydd o sbarduno i danio dychymyg a diddordeb disgyblion yn eu dysgu wrth gyflwyno thema neu uned o waith, er enghraifft trwy greu fideo cyfrifiadurol o lew yn ymweld â dosbarthiadau Blwyddyn 1 a 2 fel sbardun i waith ar lyfr penodol. Yn ogystal, maent yn gwneud defnydd effeithiol o ymwelwyr ac ymweliadau rheolaidd i gyfoethogi profiadau disgyblion ac i atgyfnerthu'r dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio iaith lafar raenus ac yn annog disgyblion i ddefnyddio geirfa a phatrymau cywir yn gyson.

Maent yn holi'r disgyblion yn effeithiol er mwyn datblygu eu medrau a'u dealltwriaeth. Ar y cyfan, defnyddir ystod addas o ddulliau addysgu sy'n briodol i gam ddatblygiad y disgybl. Er hyn, mae mwyafrif yr athrawon yn dueddol o or-arwain y dysgu sy'n cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu a datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae hyn yn ei dro yn cyfyngu diddordeb disgyblion yn eu gweithgareddau ac yn arafu'r cynnydd yn eu medrau. Mewn ychydig o achosion, prin yw'r defnydd o ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan i gyfoethogi'r dysgu ac i annog disgyblion i arbrofi ac arwain eu dysgu eu hunain.

Mae gan athrawon a chynorthwywyr berthynas waith gynhyrchiol â'r disgyblion ac maent yn adnabod eu disgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig buddiol er mwyn annog y disgyblion i ystyried beth maent yn ei wneud yn dda a sut i wella'u gwaith. Maent yn defnyddio arsylwadau a gwybodaeth am gynnydd ym medrau disgyblion i gynllunio profiadau dysgu buddiol ar eu cyfer.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae cynhesrwydd croeso yr ysgol yn elfen naturiol o'r ddarpariaeth ac yn cefnogi ethos hapus, cynhwysol ac ofalgar ar gyfer holl gymuned yr ysgol. Mae hyn yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol bron bob disgybl yn hynod effeithiol. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r ystyriaeth a roddir i les emosiynol disgyblion trwy gynnig cyfleoedd iddynt ddatblygu dulliau buddiol a chymryd seibiant yn y 'Mannau Meddwl', yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ddarpariaeth ac yn elwa ar yr ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau gwerthfawr sydd ar gael.

Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas waith agos a gonest gyda rhieni sy'n cyfoethogi trafodaethau am gynnydd ac anghenion eu plant. Mae tîm lles yr ysgol yn darparu ystod dda o gynhaliaeth a chefnogaeth i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion, er enghraifft trwy ddarparu sesiynau pwrpasol i gefnogi lles emosiynol disgyblion bregus. Mae hyn, ynghyd â chynnal arsylwadau ac asesiadau parhaus, yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at sicrhau darlun clir a chyfredol o anghenion bron bob disgybl ac i ymateb yn brydlon i'w hanghenion.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn iawn ar gyfer cefnogi disgyblion ADY. Mae'r cydlynydd a'r cynorthwywyr yn meddu ar arbenigeddau uchel yn y maes ac yn angerddol dros eu cyfrifoldebau a datblygiad y disgyblion. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd, gan gynnig ystod eang o raglenni cymorth a chefnogaeth sydd wedi eu teilwra i ymateb i'w hanghenion a'u targedau personol. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o asiantaethau allanol i gyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY, er enghraifft trwy gydweithio â thîm iaith a lleferydd a ffisiotherapydd. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig arweiniad a chyngor effeithiol i ddysgwyr ynglŷn â dewisiadau gyrfa yn y dyfodol. Yn ystod 'Wythnos i agor ein llygaid', mae'r athrawon yn gwahodd rhieni ac ymwelwyr i'r ysgol i siarad â'r disgyblion am eu gwaith. Mae'r profiadau gwerthfawr hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu fwy am gyrfaoedd sydd ar gael iddynt yn ogystal ag ymestyn eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu'n werthfawr ar benderfyniadau trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o grwpiau a chynghorau llais y disgybl. Er enghraifft, mae aelodau'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n werthfawr i greu 'Siop Swap' i annog rhieni a disgyblion i ailddefnyddio gwisg ysgol sydd wedi cael ei defnyddio'n flaenorol. Mae disgyblion sy'n rhan o'r pwyllgorau hyn yn ymgymryd â chyfrifoldebau o ddifri, gan gyfrannu'n werthfawr at fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Darperir cyfleoedd gwerthfawr iddynt fyfyrio a chyd-addoli sy'n sicrhau amser i ystyried safbwyntiau eraill, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar sut gellir edrych ar ôl ei gilydd.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r cyfleoedd mae disgyblion yn eu cael i gymryd rhan mewn perfformiadau a chyflwyniadau rheolaidd, fel unigolion ac mewn grwpiau. Mae hyn yn meithrin eu hunanhyder ac yn datblygu eu medrau mynegiannol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion hynaf yr ysgol yn cyflwyno cynhyrchiad blynyddol mewn cydweithrediad ag ysgolion eraill y clwstwr ar hanes dinas

Casnewydd a'r cyffiniau. Mae hyn yn ffynhonnell ysbrydoliaeth i waith pellach ar derfysgoedd hil yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon. Mae'r profiadau hyn hefyd yn atgyfnerthu gwybodaeth disgyblion am eu treftadaeth a'u diwylliant yn hynod effeithiol, yn ogystal â chymharu'r digwyddiadau hyn â materion cyfoes o fewn eu cymuned.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo prydlondeb a phresenoldeb ac mae'r disgyblion hynaf yn trafod yn synhwyrol bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf a chyson o ddiogelu. Darperir cyfleoedd buddiol i athrawon, cynorthwywyr a llywodraethwyr fynychu ystod briodol o hyfforddiant perthnasol sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o gadw disgyblion yn ddiogel.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth ac arweinwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar ymdeimlad o gydweithio ymysg holl randdeiliaid yr ysgol. Maent wedi creu cyfeiriad strategol clir sy'n cael ei hyrwyddo'n effeithiol trwy arwyddair 'Ysgol i esgor gobeithion'. Mae dathlu Cymreictod a chynnal safonau uchel o ran y Gymraeg a lles disgyblion yn ganolog i holl fywyd a gwaith yr ysgol. Yn ogystal, mae gwerthoedd hunaniaeth, partneriaeth, caredigrwydd a pherthyn i'w hardal yn deillio o ddyheadau cytûn arweinwyr, staff a disgyblion. Mae'r pennaeth wedi creu amgylchedd gofalgar a chynhwysol sy'n sicrhau'r ymdeimlad cryf o waith tîm ac ymrwymiad cynnes at les disgyblion. O ganlyniad, maent yn ymrwymo i ddiwallu anghenion bob disgybl, gan ofalu am eu lles a sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion I ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac i wneud eu gorau. O ganlyniad, mae ymddygiad ac ymrwymiad bron bob disgybl tuag at eu gwaith a bywyd yr ysgol yn dda iawn. Er gwaethaf cyfnod staffio ansefydlog diweddar, mae arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod lles disgyblion yn flaenllaw yng ngweledigaeth a chyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'n gymuned hapus a chyfeillgar, gyda'r ymdeimlad o fod yn rhan o un teulu mawr yn treiddio trwy bob elfen o waith a bywyd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a buddiol â'r gymuned leol ac ysgolion y clwstwr i gynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion. Mae arweinwyr a'r staff wedi sefydlu perthnasoedd gwerthfawr iawn â rhieni sy'n cyfrannu'n dda at eu gallu i gefnogi'u plant yn y cartref. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod rhieni'n gallu trafod unrhyw faterion gydag arweinwyr ac athrawon. O ganlyniad, maent yn ymateb yn brydlon i unrhyw gwynion a materion perthnasol.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos effeithiol i hyrwyddo, galluogi a chefnogi dysgu proffesiynol staff dysgu a chynorthwyol. Er enghraifft, mae llawer wedi cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau Cymraeg sy'n cefnogi blaenoriaeth amlwg yr ysgol i ddatblygu medrau Cymraeg a Chymreictod bob disgybl. Mae arweinwyr hefyd yn cynnig cyfleoedd effeithiol i staff weithio gydag ysgolion y clwstwr i rannu a datblygu eu harferion proffesiynol. Er enghraifft, mae athrawon o ysgolion lleol yn cydweithio a chefnogi ei gilydd wrth ddatblygu prosesau asesu cynnydd disgyblion mewn meysydd dysgu a phrofiad. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at wella eu dealltwriaeth o Gwricwlwm i Gymru a sut i gefnogi profiadau dysgu buddiol i ddisgyblion.

Mae gan arweinwyr a llywodraethwyr adnabyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o ystod o drefniadau hunanwerthuso sy'n cynnwys craffu ar lyfrau, canfod barn disgyblion ac arsylwi ar y dysgu ac addysgu trwy deithiau dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn gadarn. Yn gyffredinol, mae arweinwyr a chydlynwyr meysydd dysgu a phrofiad yn cymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau monitro i adnabod anghenion a chynllunio ar gyfer gwelliant, er enghraifft wrth ddatblygu medrau rhesymu disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gweithio'n ddiwyd i gefnogi gwaith yr ysgol. Maent yn manteisio ar arbenigedd aelodau yn effeithiol i gefnogi eu gwaith. Er enghraifft, wrth greu ap cyfrifiadurol i hwyluso mynediad yr aelodau'r corff a chyfrannu'n weithredol at bolisïau, adroddiad hunanwerthuso a chofnodion cyfarfodydd. Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r diwylliant o ddiogelu yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithiol. Er y gwarged sylweddol sydd gan yr ysgol, mae cynllun gwariant pwrpasol ar waith ac maent yn gwneud penderfyniadau gwariant priodol er budd y disgyblion. Er enghraifft, maent wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr ardaloedd allanol a datblygu ystafell amlbwrpas i'r gymuned. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfoethogi'r ddarpariaeth a phrofiadau dysgu i'r disgyblion. Yn ogystal, gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i ddarparu sesiynau hybu lles disgyblion sydd yn ei dro yn cael effaith fuddiol ar hyder ac ymddygiad disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2023